O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2017 Rhif 704 (Cy. 166)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn i fan i'r dwyrain o Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym* | *26 Mehefin 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caer i Fangor yr A55 a Chefnffordd Llundain i Gaergybi yr A55, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt ac oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 14(1), (4), (7) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mehefin 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn i fan i'r dwyrain o Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2017.

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys; a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r awyrlu ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw Cefnffordd Caer i Fangor yr A55 yn Sir Gwynedd a Chefnffordd Llundain i Gaergybi yr A55 yn Sir Ynys Môn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 26 Mehefin 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr "lluoedd arbennig" *("special forces")* yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 30 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 40 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith nac yn ystod cyfnodau o wyntoedd cryfion, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru, yn gyflymach na 50 mya ar y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei yrru ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau perthnasol o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3, 4 a 5 yn weithredol.

**Dirymiadau**

**8.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 7 (Cefn Du), Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Terfynau Cyflymder 30 mya a 50 mya Dros Dro) 2016(**2**) a Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 1, Cylchfan Kingsland, Caergybi, Ynys Môn i fan i'r dwyrain o Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llys y Gwynt, Bangor, Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder o 40 MPH) 2017(**3**) wedi eu dirymu.

**Cymhwyso**

**9.**—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn eu dangos

(2) Nid yw unrhyw terfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Mehefin 2017

*Nina Ley*
Pennaeth Yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(**2**) O.S. 2016/528 (Cy. 160).
(**3**) O.S. 2017/352 (Cy. 86).

## YR ATODLEN

Y darnau o brif gerbytffyrdd tua’r dwyrain a thua’r gorllewin a holl ffyrdd ymuno ac ymadael y cefnffyrdd sy’n ymestyn o Gyffordd 1 (Cylchfan Kingsland), Caergybi, Ynys Môn hyd at bwynt 800 metr i’r dwyrain o ganolbwynt Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd.